SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #9 SCHTh Gogledd Cymru – 02 Rhagfyr 2022
OPCC North Wales Newsletter #9 – 02 December 2022

Pawb yn Un dros Ogledd Cymru

Gwnaeth cynhadledd y cyntaf o'i bath ddigwydd yng Nghyffordd Llandudno ar 23 Tachwedd er mwyn edrych ar sut y gall asiantaethau a sefydliadau gwahanol, o'r heddlu i wasanaethau iechyd a chymdeithasol, ddod at ei gilydd i ymdrin ag achosion o drais domestig a chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru.

Cynhaliwyd y digwyddiad, o'r enw Pawb yn Un, yng Nghanolfan Fusnes Conwy ac fe'i trefnwyd gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (SCHTh), gan ychwanegu at waith Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn yr ardal hon. Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi strategaeth hyd at 2024 gyda'r weledigaeth ganlynol: "Gall pobl Gogledd Cymru fyw bywydau diogel, cyfartal a rhydd o drais, mewn cymunedau heb ofn, cael eu cam-drin na'u camfanteisio."

Hwyluswyd y digwyddiad gan Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Chadeirydd Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys Nicole Jacobs, Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr a Ruth Dodsworth, cyflwynydd ar ITV, a drafododd ei phrofiad hi ei hun o gael ei cham-drin a'i gorfodi mewn perthynas. **Darllenwch fwy yma.**

All for One for North Wales

A first-of-its-kind conference took place in Llandudno Junction on 23 November to look at how different agencies and organisations from police through health and social services can come together to tackle cases of domestic violence and modern slavery in North Wales.

The event, called All for One, was held at the Conwy Business Centre and was organised by the Office of the Police and Crime Commissioner for North Wales (OPCC), building on the work of the North Wales Vulnerability and Exploitation Board in this area. The Board has published a strategy up to 2024 with the vision that: "The people of North Wales can live safe, equal and violence-free lives, in communities without fear, abuse or exploitation."

The event was facilitated by Stephen Hughes, CEO, Office of the Police and Crime Commissioner and Chair of the North Wales Vulnerability and Exploitation Board. Keynote speakers included Nicole Jacobs, Domestic Abuse Commissioner for England and Wales; and ITV Presenter Ruth Dodsworth, who discussed her own experience of living in an abusive and coercive relationship. **Read more here.**

CHTh yn annog trigolion i ddweud eu dweud ar sut mae'r heddlu yn cael ei ariannu

Mae Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru yn gofyn i bobl Gogledd Cymru i ddweud eu barn ar faint o arian maent yn barod i dalu am blismona fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ac arolwg.

Yn ogystal â mynegi eu barn ar y newidiadau i'r swm a delir i blismona, gall trigolion hefyd ddweud pa flaenoriaethau y maent eisiau gweld Heddlu Cymru yn ymdrin â nhw. Bydd yr arolwg hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt roi eu barn ar blismona yn eu cymunedau eu hunain yn gyffredinol. Gellir llanw'r arolwg barn ar-lein ac mae copïau papur o'r arolwg, yn Gymraeg a Saesneg, hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd a gorsafoedd heddlu ledled Gogledd Cymru. Gallwch hefyd gael yr arolwg mewn fformat Darllen Hawdd.

Mae'r arolwg yn lansio ar 5 Rhagfyr 2022 ac yn cau ar 11 Ionawr 2023.

Darllenwch fwy yma.

PCC urges the people of North Wales to have their say on police funding

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC), Andy Dunbobbin, is asking the people of North Wales to make their voice heard on how much money they are prepared to pay for policing as part of a public consultation and survey.

As well as having their view on changes to the amount spent on policing, residents will also be able to say what priorities they want to see North Wales Police act on. The survey will also give them the chance to comment on how they see policing in their own community more generally. The poll can be filled in online and paper copies of the survey, in Welsh and English, are also available at libraries, police stations and some leisure centres across North Wales. Residents can also get the survey in Easy Read format.

The survey launches on 5 December 2022 and closes on the 11 January 2023.

Read more here.

CHTh yn dangos cefnogaeth i ymgyrch i ddiweddu trais yn erbyn merched a genethod

Ar 25 Tachwedd, dangosodd y CHTh ei gefnogaeth i Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, sydd â'r nod o roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod a merched. Mae Diwrnod y Rhuban Gwyn yn fudiad byd-eang a gydnabyddir yn eang ac yn cael ei arwain gan White Ribbon UK, y brif elusen sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Fel ffordd o nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn, roedd rhubanau gwyn i'w gweld ar y coed sy'n arwain at Bencadlys Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Casglodd CHTh gynrychiolwyr at ei gilydd o rai o'r gwasanaethau y mae'n helpu i'w noddi i gefnogi merched a genethod sy'n dioddef trais yng Ngogledd Cymru. Daethant i ddangos eu cefnogaeth i'r fenter a'r ymgyrch. **Darllenwch fwy yma.**

PCC shows support for campaign to end violence against women and girls

On November 25, the PCC showed his support for White Ribbon Day, which aims to end men's violence against women and girls. White Ribbon Day is a widely recognised global movement and is spearheaded by White Ribbon UK, the leading charity engaging men and boys to end violence against women and girls.

As a way of marking White Ribbon Day, the trees leading to North Wales Police HQ in Colwyn Bay were hung with white ribbons. The PCC gathered together representatives from some of the services he helps fund to support victims of violence against women and girls in North Wales all of whom joined to show their support for the initiative and the campaign. **Read more here.**

SCHTh ar LinkedIn

Oeddech chi'n gwybod bod gan SCHTh gyfrif LinkedIn? Dilynwch ni yma am ein newyddion a datblygiadau diweddaraf.



OPCC on LinkedIn

Did you know the OPCC has a LinkedIn account? Follow us here for our latest news and develpments.

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy